CLIMATE, FAIRTRADE AND YOU

CHOOSE THE WORLD YOU WANT

FAIRTRADE

GWASANAETH CYNRADD
GWASANAETH GWESTY NECESSITA

Croeso i Westy Necessita, lle mae ystafelloedd ar gyfer pob cyllideb. Ond os yw eich cyllideb yn fach, mae'n rhaid i chi ddewis rhwng yr hyn mae ei angen arnoch fwyaf, fel y mae'n rhaid i bobl ym mhedwar ban byd ei wneud mewn bywyd go iawn. Mae'r gêm chwarae rôl hon yn cyflwyno'r syniad o ddewisiadau anodd, fel y rhai sy'n cael eu gwneud gan ffermwyr sy'n byw ar incwm isel yn feunyddiol.

AMCANION DYSGU:

- Bod y dysgwyr yn deall bod gan bawb anghenion
- Bod dysgwyr yn dangos empathi i bobl nad oes modd iddynt ddiwallu eu holl anghenion
- Bod dysgwyr yn deall ein bod yn gysylltiedig â'r bobl sy'n tyfu ein bwyd

BYDD ANGEN Y CANLYNOL ARNOCH:

2 ddysgwr i chwarae'r rolau cwsmer a derbynnydd yng Ngwesty Necessita

Os yw eich ysgol yn cynnal gwasanaethau rhithwir, gallai bod y cymeriadau yn y gêm chwarae rôl mewn dosbarthiadau ar wahân, yn sgwrsio gyda'i gilydd drwy'r camera, neu ddau gymeriad mewn un dosbarth.
Sicrhewch fod pawb yn gallu clywed y sawl sy'n chwarae rôl!

SGRIPT YR ATHRO

Yn ystod Pythefnos Masnach Deg, rydym yn gofyn i bobl feddwl am y byd maent am ei weld, a sut gallant helpu i lunio'r byd maent am ei weld. Mae yna lawer o bethau y gallwn eu gwneud.

Mae bywyd yn anodd i gynhyrchwyr coffi, bananas, coco a llawer o gynnyrch eraill yr ydym yn eu prynu a'u mwynhau. Efallai fod yn rhaid iddynt ddewis rhwng darparu bwyd maethlon i'w teuluoedd, cael meddyginiaeth pan eu bod yn sâl a thalu am ffyrdd o ddiogel eu cartrefi a'u ffermydd rhag y newidiadau rydym yn eu gweld yn digwydd yn ein hinsawdd.

[sleid – y byd rydym am ei gael]
Rydym i gyd yn gwybod pa mor bwysig ydyw i ofalu am ein hamgylchedd. Mae popeth ar y blaned yn dibynnu ar natur am ei anghenion. Am yr aer rydym yn ei anadlu, y dŵr rydym yn ei yfed, y bwyd sy'n dod o blanhigion sy'n tyfu yn y pridd y mae'n rhaid i ni ofalu amdanynt, coed i ddarparu cysgod, y tywydd i dyfu bwyd a chadw'n gynnes.

A'r pethau rydym yn eu mwynhau er pleser – y pethau rydym yn mwynhau eu gwneud am hwyl – afonydd i nofio ynddynt, coed i'w dringo, adar i'w gwylio, lleoedd prydferth i ymweld â hwy.
Mae cefnogi'r bobl sy'n tyfu'r pethau rydym yn dwlu arnynt fel y gallant oroesi a ffynnu yn rhan o ofalu am ein planed a phopeth arni. Mae angen bwyd, dŵr, aer, cysgod a diogelwch arnom i gyd, ni waeth ble'r ydym ar y blaned.

SGRIPT CHWARAE RÔL

Der	Croeso i Westy Necessita. Sut gallaf eich helpu chi?
Cws	Hoffwn ystafell ar gyfer heno os gwelwch yn dda.
Der	Yn wir. Mae gennym ddigon o ystafelloedd ar gael ar gyfer heno, ar gyfer cyllideb pawb. All ai ofyn beth mae ei angen arnoch yn eich ystafell?
Cws	O, y pethau sylfaenol. Gwely, ystafell ymolch. O! Ac oes gennych degell er mwyn gwneud te a choffi?
Der	A wrth gwrs. Mae gennyf, ystafell hyfryd gyda gwely, ystafell ymolchi a thegell.
Cws	Ardderchog. Faint yw hynny?
Der	Hanner can punt ar gyfer heno.
Cws	Diolch.
Der	*Mae'r derbynnydd yn rhoi'r allwedd i'r cwsmer ac mae'r cwsmer yn gadael. Eiliad wedyn mae'r cwsmer yn dychwelyd.*
Der	Ydy popeth yn iawn gyda'ch ystafell?
Cws	Na. Does dim ffenestr yn fy ystafell, bron nad oeddwn yn gallu anadlu a dim golau, mi wnes i fwrw fy mhen wrth gerdded i mewn ac yna baglu dros y gwely. Ni allaf weld unrhyw beth,
Der	A, mae'n flin gen i ond ystafell sylfaenol y gofynnoch amdani gyda gwely ac ystafell ymolchi a thegell, dwi'n credu? Ni ddywedoch fod angen aer a golau arnoch.
Cws	(yn ddiamynedd) Wrth gwrs bod angen aer a golau arnaf. Mae angen y rheiny ar bawb.
Der	Iawn, gallaf eich uwchraddio i'r ystafell efydd am £60 ar gyfer heno. *Mae'r derbynnydd yn trosglwyddo'r allwedd ac mae'r cwsmer yn gadael ond yn dychwelyd yn fuan.*
Der	Ydy popeth yn iawn gyda'ch ystafell? Mae gan yr ystafell hon ddigon o aer a golau yndoes?
Cws	Na, gwnes i gerdded i mewn i'm hystafell ac nid oes to. A dim ond 3 wal.
Der	Yn wir, roeddwn yn meddwl y byddech yn hoffi'r holl aer a golau.
Cws	Mae'n rhewi ac yn bwrw glaw! Ni allaf gysgu yno. Mae angen diogelwch arnaf rhag y tywydd.
Der	Aha. Mae'n ddrwg gwn i, dywedoch fod arnoch wely, ystafell ymolchi, tegell, aer a golau'n unig. Ni ddywedoch unrhyw beth am ddiogelwch rhag y tywydd.

Cws	Iawn, felly mae angen gwely, ystafell ymolchi, tegell, aer, golau a diogelwch rhag y tywydd arnaf.
Der	Gallaf eich uwchraddio i ystafell arian, sy'n £70. Mae ganddi'r holl bethau hynny.
Cws	Os gwelwch yn dda. Hoffwn ymgartrefu yn fy ystafell.
	Mae'r derbynnydd yn trosglwyddo'r allweddo ac mae'r cwsmer yn gadael ond yn dychwelyd yn gyflym
Der	Ydy popeth yn iawn gyda'ch ystafell?
Cws	Na. Es i'r ystafell ymolchi yn fy ystafell ac nid oes unrhyw ddŵr yn y tapiau.
Der	Aha. Mae'n ddrwg gen i, dywedoch fod angen gwely, ystafell ymolchi, tegell, aer, golau a diogelwch arnoch rhag y tywydd. Ni ddywedoch unrhyw beth am ddŵr.
Cws	Pam byddwn angen ystafell ymolchi neu degell ond dim dŵr?
Der	Ni ddywedoch eich bod ei angen.
Cws	Mae angen dŵr arnaf.
Der	Gallaf eich uwchraddio i ystafell aur. Mae ganddi'r holl bethau hynny.
Cws	Os gwelwch yn dda.
Der	Oes unrhyw beth mae ei angen arnoch?
Cws	A yw'r ystafell wedi'i gwresogi oherwydd ei bod hi'n oer heno ac mae angen i mi gynhesu.
Der	Aha, mae gwres yn £10 ychwanegol. Bydd hynny'n £90.
Cws	*[ochneidio]* Iawn, mae angen swper arnaf. Allaf gael gwasanaeth yn fy ystafell?
Der	Gallwch….ond dim ond mewn ystafell blatinwm. Mae'n £100 am ystafell blatinwm, ynghyd â chost eich swper.
Cws	Ond dim ond £90sydd gennyf
Der	Aha, dim swper.
Cws	Mae angen swper arnaf.
Der	Yna….beth am fynd yn ôl i'r ystafell heb do?

CRYNODEB

Mae Gwesty Necessita yn enghraifft hwyl, ond mae llawer o bobl ym mhedwar ban byd wir yn gorfod dewis rhwng y pethau mae eu hangen arnynt, yn enwedig os nad ydynt yn ennill llawer o arian. Nawr, mae llawer o ffermwyr ym mhedwar ban byd yn teimlo effeithiau tywydd eithafol ac nid ydynt yn gallu fforddio gwneud newidiadau i ddiogelu eu hunain rhag y tywydd newidiol.

Mae'n rheswm arall pam mae angen i ffermwyr gael eu talu'n deg am eu gwaith caled. Efallai nad ydym yn meddwl am y pethau hyn bob tro, ond gall effeithiau ein

dewisiadau gael eu teimlo ymhell i ffwrdd lle mae ein bwyd yn hanu. A yw'n fargen dda mewn gwirionedd os yw'n fargen wael i rywun arall?

Dyma [*neu 'yr wythnos nesaf ac ati']* Bythefnos Masnach Deg. Mae ein hysgol yn cymryd rhan drwy….